# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 19 Mehefin 2013 i'w hateb ar 26 Mehefin 2013

R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)

## Gofyn i'r Gweinidog Cyllid

1. **Janet Finch-Saunders (Aberconwy)**: A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllid untro i'r portffolio Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn benodol mewn perthynas â darpariaeth band eang? OAQ(4)0290(FIN)

2. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: Pa ohebiaeth ddiweddar y mae'r Gweinidog wedi ei chael gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi? OAQ(4)0273(FIN)

3. **David Rees (Aberafan)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am drafodaethau diweddar y mae wedi eu cael gyda Thrysorlys y DU? OAQ(4)0283(FIN)

4. **Gwyn Price (Islwyn)**: Sut y mae'r Gweinidog yn blaenoriaethu nodau Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru? OAQ(4)0279(FIN)

5. **Keith Davies (Llanelli)**: A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau presennol gyda Llywodraeth y DU ar bwerau cyllido a benthyca i Lywodraeth Cymru? OAQ(4)0281(FIN)**W**

6. **Julie James (Gorllewin Abertawe)**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bwysigrwydd Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ar gyfer Bae Abertawe? OAQ(4)0284(FIN)

**7. Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei phroses ar gyfer dyrannu cyllid canlyniadol a gafwyd gan Lywodraeth y DU? OAQ(4)0278(FIN)

**8. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am feysydd gwario Llywodraeth Cymru a fydd yn cael eu diogelu mewn cyllidebau sydd ar y gweill? OAQ(4)0288(FIN)

**9. Elin Jones (Ceredigion):** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa brosiectau cyfalaf yng Ngheredigion sydd wedi eu blaenoriaethu o dan Gynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru? OAQ(4)0274(FIN)**W**

**10. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi caffael moesegol Llywodraeth Cymru? OAQ(4)0275(FIN)

**11. Christine Chapman (Cwm Cynon):** Pryd y bydd ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad Cymru a'r UE: Partneriaeth ar gyfer Swyddi a Thwf yn cael ei gyhoeddi? OAQ(4)0291(FIN)

**12. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae cronfeydd strwythurol yn cael eu defnyddio yng Nghymru? OAQ(4)0276(FIN)

**13. Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu pa baratoadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cylch cyllido 2014-2020 yr UE? OAQ(4)0277(FIN)

**14. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Adroddiad Blynyddol Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 2013? OAQ(4)0280(FIN) **TYNNWYD YN ÔL**

**15. Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i ddyrannu cyllid untro ychwanegol i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer ffibrosis systig yn benodol? OAQ(4)0282(FIN)

## Gofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth

**1. Elin Jones (Ceredigion):** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael parthed integreiddio gwasanaethau cyngor lleol? OAQ(4)0291(LG)**W**

**2. Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo gwerth gorau mewn Llywodraeth Leol? OAQ(4)0295(LG)

**3. Peter Black (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae Llywodraeth Cymru yn gwella mynediad i gyfarfodydd cyhoeddus cynghorau lleol? OAQ(4)0292(LG)

**4. Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd y Gronfa Cydweithredu Rhanbarthol? OAQ(4)0297(LG)**W**
**TYNNWYD YN ÔL**

**5. Ken Skates (De Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â thrais domestig yng ngogledd Cymru? OAQ(4)0296(LG)

**6. Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth Llywodraeth Cymru i ddioddefwyr trais domestig? OAQ(4)0300(LG)

**7. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau Llywodraeth Cymru i annog rhagor o amrywiaeth ymhlith aelodau etholedig ar gynghorau cymuned a sir yng Nghymru? OAQ(4)0298(LG)

**8. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r canllawiau a roddir i awdurdodau lleol ar hyfforddi cynghorwyr? OAQ(4)0301(LG)

**9. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi ei wneud o Gynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru? OAQ(4)0289(LG)

**10. Julie James (Gorllewin Abertawe):** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod Llywodraeth Leol yn Abertawe yn rhannu arfer gorau? OAQ(4)0293(LG)

**11. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gwrdd â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yn y tri mis nesaf? OAQ(4)0290(LG)

**12. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella safonau a pherfformiad awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0305(LG)

**13. Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru):** Pa drafodaethau diweddar y mae'r Gweinidog wedi eu cael gydag awdurdodau tân ac achub Cymru? OAQ(4)0303(LG)

**14. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch gwella cyflenwi gwasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru? OAQ(4)0304(LG)

**15. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflog uwch swyddogion ar lefel llywodraeth leol? OAQ(4)0302(LG)

## Gofyn i Gomisiwn y Cynulliad

Ni chyflwynwyd unrhyw gwestiynau